Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Leah Roberts**

**Bae Cemaes**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi ... ol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/07/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Medi 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19, felly nid ydym wedi ystyried holl feysydd y fframwaith ansawdd.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn adnabod y gwarchodwr plant yn dda.   Maent yn ymlacio yn ei chwmni ac yn mwynhau'r amser y maent yn ei dreulio yn ei gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn magu hyder yn ei rôl ac wedi rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith ers yr arolygiad diwethaf. Mae'n ofalgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant, gan weithio mewn partneriaeth â'r rhieni.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn darparu'r hyn sydd ei angen i'w galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Caiff risgiau eu rheoli'n dda. Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir o'i gwasanaeth, ac mae wedi ymateb i argymhellion blaenorol a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn ddiogel ac yn teimlo'n gyfforddus gyda'r gwarchodwr plant.  Mae trefn feunyddiol yn eu helpu i deimlo'n ddiogel, gan eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod y dydd.  Maent yn treulio cyfnodau rheolaidd yn crwydro o amgylch y gymuned leol. Gwelsom ffotograffau o'r plant yn bwydo'r ceffylau, ac roeddent wrth eu bodd yn sôn wrthym am yr ebol a oedd wedi cyrraedd a chymaint yr oedd wedi tyfu.

Mae'r plant yn fodlon eu byd am eu bod wedi meithrin cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.  Ar ôl iddynt ddychwelyd o'u taith gerdded yn ystod y bore, roedd y plant yn gwybod ei bod hi'n amser iddynt ddewis pa eitemau roeddent am chwarae â nhw. Roedd y plant hŷn yn helpu'r plant iau i gael yr eitemau roeddent am eu cael, ac yn eu helpu i gwblhau'r gweithgaredd o osod gwrthrychau i mewn i bêl.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd.  Gwelsom fod y plant iau yn dynwared yr hyn roeddent wedi gweld eraill yn ei wneud, sy'n eu helpu i wneud cynnydd drwy ddysgu gan y bobl sydd o'u cwmpas. Mae'r plant yn dilyn arweiniad y gwarchodwr plant ac yn siarad â'i gilydd yn garedig. Maent yn dangos caredigrwydd ac yn ystyriol o'i gilydd. Maent hefyd yn gofalu am adnoddau, gan roi'r eitemau y maent wedi bod yn chwarae â nhw i gadw yn y mannau priodol. Maent yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac yn dilyn y rheolau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn dyfalbarhau am gyfnod priodol o amser ar eu dewis o weithgaredd, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cwblhau crefft a gwaith celf yn rheolaidd ar gyfer dathliadau amrywiol drwy gydol y flwyddyn.   Gall y plant chwarae ar eu pen eu hunain, ond bydd y gwarchodwr plant yn eistedd wrth eu hymyl i gynnig anogaeth gadarnhaol a chymryd rhan yn yr hyn sy'n mynd ymlaen.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth briodol, megis bwydo eu hunain amser cinio, ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.  Mae ymarfer corff yn bwysig iawn – mae'r plant yn cerdded i'r ysgol bob dydd ac yn treulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd, yn chwarae yn yr ardd ac yn dysgu am dyfu llysiau i'w bwyta. Maent yn hyderus i roi cynnig ar bethau newydd, ac yn defnyddio eitemau amrywiol i gwblhau gwaith creadigol.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn magu hyder yn ei rôl. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu ond nid ydynt wedi'u dyddio. Mae ei pholisi diogelu ar gael i'r rhieni, ac roedd yn hyderus am y broses y byddai'n ei dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn, ond nid yw wedi cwblhau cwrs diogelu.  Mae ei thystysgrif cymorth cyntaf pediatrig wedi cael ei diweddaru. Mae cofnodion damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cadw, ac mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi ac yn diwallu anghenion iechyd unigol. Mae'n diwallu anghenion personol y plant yn llawn, er enghraifft drwy newid cewynnau'r plant yn rheolaidd. Caiff dwylo eu golchi a chaiff tywelion unigol eu defnyddio i sychu dwylo, sy'n lleihau'r risg o ledaenu heintiau. Mae hylif diheintio dwylo ar gael, ac mae'r gwarchodwr plant yn glanhau adnoddau bob tro ar ôl eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu prydau a byrbrydau; sef brechdanau amser cinio a phryd o fwyd poeth amser te fel arfer. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyta'n iach bob amser yn cael eu dilyn oherwydd gwelsom fod y plant yn cael cynnig sudd i'w yfed.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda.  Mae ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddathlu, sy'n golygu nad oes fawr ddim angen rheoli ymddygiad negyddol. Mae'n gosod disgwyliadau clir, megis pwysigrwydd rhannu a bod yn garedig tuag at ei gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei diwrnod ar gyflymder y plant,  gan gynllunio gweithgareddau o amgylch teithiau'r ysgol a sicrhau nad yw'r plant yn cael eu rhuthro mewn unrhyw ffordd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu ffotograffau â'r rhieni am yr hyn y mae eu plant wedi bod yn ei wneud yn rheolaidd. Mae dyddiaduron dyddiol ar gyfer y plant iau yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni i ddangos bod anghenion unigol eu plant wedi cael eu diwallu. Mae'r drefn feunyddiol yn rhoi sefydlogrwydd i'r plant, ceir cyfnodau prysur gyda chyfnodau tawelach rhyngddynt, a chaiff y plant gyfle i ymlacio a gorffwys pan fydd angen.  Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau sy'n apelio at ddiddordeb unigol y plant. Er enghraifft, trefnodd fod y plant yn casglu mwyar duon a gwnaeth bobi teisen gyda nhw, ac maent yn mwynhau gweithgareddau toes chwarae ar ôl ysgol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn dda ac mae'r asesiadau risg wedi cael eu diweddaru. Mae arferion glanhau effeithiol yn golygu bod y gweithdrefnau rheoli heintiau yn cael eu dilyn ac yn lleihau'r risg o ledaenu heintiau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau diogelwch ei hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r drws ffrynt ar glo bob amser, ac mae giât diogelwch wedi'i gosod ar draws drws yr ystafell fyw. Mae'n sicrhau nad yw ci'r teulu yn cael mynediad i'r brif ystafell chwarae pan fydd y plant yn bresennol. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd, gan olygu bod pawb yn gyfarwydd â'r hyn i'w wneud os bydd tân.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o lawr gwaelod ei thŷ ac wedi addurno'r ystafelloedd gydag arddangosfeydd lliwgar o waith celf y plant. Mae'n goruchwylio'r plant yn briodol wrth iddynt ddefnyddio'r ystafell ymolchi, sydd wedi'i lleoli i fyny'r grisiau, ac mae'n defnyddio'r ardal yn effeithiol i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Gall hefyd fonitro'r plant sy'n cysgu yn briodol, gan eu bod yn cysgu gerllaw mewn cadeiriau gwthio yn y brif ystafell fyw. Mae'r ardal awyr agored a ddefnyddir gan y plant yn amgaeedig ac yn ddiogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau, sy'n cael eu cylchdroi'n rheolaidd er mwyn helpu'r gwarchodwr plant i reoli'r gwaith glanhau yn unol â'i hasesiadau risg COVID-19. Mae ardaloedd storio derbyniol yn cadw'r teganau mewn cyflwr priodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn unol â'i datganiad o ddiben. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i'w harchwilio, ond nid ydynt wedi'u dyddio i adlewyrchu pryd y cawsant eu hadolygu. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn bwysig iawn i'r gwarchodwr plant, ac mae'n rhedeg ei gwasanaeth yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant wedi penderfynu cyfyngu ar nifer y plant sy'n mynychu yn ystod y pandemig, gan ei bod am gyfyngu ar gyswllt â chartrefi gwahanol er mwyn lleihau'r risg a berir i'w theulu ei hun a'r teuluoedd hynny sy'n defnyddio ei gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ei phrofiad o ofalu am ei theulu ei hun ac yn ceisio adborth gan y rhieni.  Mae'n llwyddo i adlewyrchu'r drefn y mae'r plant iau yn ei dilyn gartref, a gwelodd fod hyn yn eu helpu i setlo'n hawdd. Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n casglu barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno datganiad hunanasesu gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru.  Mae gan bob aelod o'r cartref dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n agos gyda'r rhieni er mwyn nodi anghenion unigol a dymuniadau eu plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.  Mae diwallu anghenion y plant yn unol â dewisiadau'r rhieni yn bwysig iawn iddi. Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu dulliau clir a rheolaidd gyda'r rhieni drwy adnodd negeseua gwib a dyddiaduron dyddiol. Dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ymweld â lleoliadau o ddiddordeb lleol a'r grwpiau babanod a phlant ifanc unwaith eto, sy'n rhoi lefel o gymorth iddi hi a chyfleoedd datblygiadol i'r plant.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu.

A2 – sicrhau bod y diodydd a ddarperir yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyta'n iach ar gyfer lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig.

A3 – arsylwi ar yr hyn y gall y plant ei wneud a'i gofnodi, er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer camau dysgu a datblygu nesaf y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Nid oedd y gwarchodwr plant yn cofnodi amser cyrraedd a gadael y plant. | |
| Roedd angen diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae hefyd angen adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau i adlewyrchu'r cartref a'r gwasanaeth a ddarperir. | |
| Nid oedd ffeil un plentyn yn cynnwys contract. Nid oedd gwarchodwr plant wedi cwblhau un oherwydd bod y plant yn mynychu ar adegau gwahanol bob wythnos – cafodd ei hatgoffa bod angen i bob plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth gael contract wedi'i gwblhau. | |

Os na fydd darparwyr yn llwyddo i wella, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Os bydd darparwyr yn methu â gweithredu â blaenoriaeth, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/09/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi